

Wrth iddynt ddatblygu

Ar Garlam i'r Gofod

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Darllenwch rannau o'r stori/ chwaraewch rannau o'r stori oddi ar y CD-Rom

Anogwch y plant i:

- Symud o amgylch y lle gan ddefnyddio gweithrediadau sy'n 'addas i'r stori'
- Archwilio casglu, cario, ac adeiladu llong ofod
- Archwilio gadael y ddaear 10, 9, 8....3, 2, 1 ac i ffurdd â hi
- Archwilio symud fel y llong ofod
- Archwilio symud fel dyn yn y gofod neu greadur estron

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud
- Dychmygu
- Cerdded, rhedeg, llwynog, neidio, llithro, cropian, adeiladu, gweithred dafu
- Ymlaen, yn ôl, i'r ochr
- Whwsh, crash, troelli, chwap

Cyfleoedd i:

- ymuno drwy ymateb yn naturiol
- dynwared gweithrediadau, synau a geiriau'n fras
- symud mewn gwahanol ffyrdd
- symud i wahanol gyfeiriadau
- chwarae rôl ar eu pen eu hunain neu ochr yn ochr â phlant eraill neu oedolyn



Adnoddau

- Llyfr stori 'Planed Chwarae'
- Lluniau o'r llyfr
- Ystod o beli
- Ceffylau pren
- Deunyddiau i wneud llong ofod, creaduriaid
- Clipiau sain 'Planed Chwarae'

Cwestiynau

- Dychmygwch eich bod chi newydd lanio ar Blaned Chwarae. Sut byddech chi'n symud?
- Sut gallwch chi wneud eich gweithrediadau'n fwy amlwg?
- Beth fydddech chi'n ei wneud pe baech chi'n gweld creadur estron?
- A oedd y creaduriaid yn gyfeillgar neu'n anghyfeillgar?
- Sut gallwch chi ddweud?
- Sut gallech chi symud fel y creadur pinc? Sut mae'r creadur coch yn symud, yn eich barn chi?
- Pa bethau cyfarwydd sydd yn y stori hon? Ble gallwch chi eu gweld nhw? Sut gallech chi ddangos y rhain yn eich dawns? E.e. drwy ailadrodd ac addasu gweithrediadau/ cymalau'r barcud a'r ddraig, a grëwyd ganddynt o'r blaen

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio yn eu 'swigod'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn ymuno drwy ymateb yn naturiol?
- Yn dynwared gweithrediadau, synau a geiriau'n fras?
 - Yn symud mewn gwahanol ffyrdd?
 - Yn symud i wahanol gyfeiriadau?
- Yn chwarae rôl ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â phlant eraill neu oedolyn?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- ganolbwyntio ar ei hoff weithred
- trafod sut gallai symud, a symudwch gydag ef
- gwyllo plant eraill i gael syniadau. Beth mae'n ei hoffi? Sut gallai ef wneud hynny?
- dod o hyd i symbyliadau eraill sy'n ei ysbrydoli: lluniau, clipiau fideo, cerddi, rhigymanau â symudiadau, a chaneuon a cherddoriaeth, ac ati
- ateb cwestiynau am y symudiadau y gallai eu defnyddio, e.e. beth sy'n troi'n gyflym? Top troi – sut mae top troi'n symud? Dangos i fi sut gallet ti symud fel top troi, ac ati
- ymarfer ei sgiliau Ymwybyddiaeth o'r Corff gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Creadigol: Celf, crefft a dylunio – marcio a chreu patrymau â'r bysedd ac offer, dylunio a gwneud cynnyrch syml, e.e. llong ofod (un sy'n ddigon mawr i blant chwarae ynddi). Creu gwisgoedd/masgiau creaduriaid estron
- Datblygiad Creadigol: Cerddoriaeth – arbrofi â chreu synau

Anogwch y plentyn i:

- ailadrodd ei weithrediadau
- trafod ansawdd ei weithrediadau, e.e. a yw 'whwsh' yn air cyflym neu'n air araf? Cyflym – Sut galli di ddangos rhywbeth yn mynd 'whwsh' i fi?
- perfformio ei weithrediadau am fwy o amser
- dangos ei weithrediadau i blentyn arall fel y gall y plentyn hwnnw eu copio neu'u haddasu
- dechrau dangos emosiynau drwy ei weithrediadau dawn: hapus, ac ati